Rhifyn 2, Ebrill 09 Pris: 75c

Cylchgrawn Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

UCAC Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

yr Athro

O Ben Roc i Benglais

Wedi blwyddyn o waith, datgymalwyd y sgaffaldiau, alltudiwyd y cymysgwyr concrît, a ffarweliwyd â'r adeiladwyr, y trydanwyr a'r paentwyr. A dyna gwblhau'r broses o drawsnewid 'Havelock Villa' ger Ysbyty Bronglais, yn Brif Swyddfa UCAC.

Adeilad Pen Roc, gyferbyn â'r pier, fu'n gartref i ni ers 1983. Trist yw ffarwelio â'r golygfeydd dros y môr, dawns y drudwy gyda'r nos, a bwrlwm canol y dref. Ond braf iawn yw cael manteisio ar gyfleusterau newydd sy'n hwyluso gwaith y staff, ac yn caniatáu mynediad llawer rhwyddach i chi'r aelodau.

Fel y gwŷr trigolion ac ymwelwyr i Aberystwyth, mae mannau parcio'n bethau prin a gwerthfawr, ac ni fydd angen bellach i aelodau droi mewn cylchoedd o rwystredigaeth o gwmpas system un-ffordd y dref gan fod maes parcio y tu ôl i'r swyddfa newydd. Bydd lifft yn hwyluso mynediad ymhellach, ac ystafell fawr, lled yr adeilad, ar y llawr cyntaf yn le braf ac urddasol i gynnal cyfarfodydd.

Mae UCAC yn ymfalchïo, fel nifer o sefydliadau eraill, yn y ffaith mai yn Aberystwyth y mae ei bencadlys cenedlaethol. Edrychwn ymlaen at barhau â gwaith pwysig yr undeb am flynyddoedd i ddod yn ein cartref newydd ar Ffordd Penglais.

Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais,
Aberystwyth SY23 2EU

Gwahoddiad i'r Agoriad Swyddogol!

Dydd Sadwrn 13 Mehefin, caiff y swyddfa newydd ei hagor yn swyddogol gan John Emrys Jones, Trysorydd Cenedlaethol UCAC ers dros chwarter canrif, ac aelod ers bron i hanner canrif. Bydd siaradwyr gwadd, a lluniaeth ysgafn i ddilyn – ac wrth gwrs, cyfle i gael cip ar y Brif Swyddfa.

Os hoffech ddod i'r agoriad swyddogol a fyddech gystal â llenwi'r ffurflen isod a'i dychwelyd atom **erbyn 15 Mai.**

Rwyf am fynychu Agoriad Swyddogol Prif Swyddfa UCAC ☐

Enw: _____

Cyfeiriad: _____

Rhif ffôn: _____

Cyfeiriad e-bost: _____

Mae gen i anghenion bwyta arbennig: _____

Dychweler i Brif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

t2 Cyngor t3 Mewn Undeb mae Nerth t4 Newyddion

Beth ddylech wneud mewn achos o gŵyn neu gyhuddiad yn eich erbyn?

1. Cysylltwch yn syth gydag un o swyddogion UCAC.
2. Peidiwch â gwneud unrhyw ddatganiad.
3. Peidiwch â chyfaddef unrhyw beth.
4. Peidiwch â cheisio cymodi, hyd yn oed gyda chefnogaeth neu anogaeth y Pennaeth.

Mae'n hollbwysig i chi dderbyn cyngor gan swyddog UCAC cyn gweithredu ymhellach.

Cwyn neu gyhuddiad yn erbyn athro – pa gamau y bydd ysgol yn eu cymryd?

Mae hyn yn dibynnu'n llwyr ar ddifrifoldeb y gŵyn neu'r cyhuddiad. I gychwyn, bydd y pennaeth yn cysylltu â Chadeirydd y Llywodraethwyr. Os yw'r cyhuddiad, yn eu barn nhw, yn fater mewnol e.e. ynghylch safon gwaith yr athro, byddant yn cynnal ymchwiliad mewnol. Os bydd y cyhuddiad, yn eu barn nhw, yn un difrifol e.e. honiad o daro plentyn neu unrhyw fater yn ymwneud â diogelwch plant, gallant alw am gyfarfod o'r grŵp Strategaeth. Aelodau'r grŵp Strategaeth yw'r Pennaeth, Swyddog Diogelu Plant yr Awdurdod Addysg Lleol (neu Swyddog Addysg), Cynrychiolydd o'r Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Opsiynau y byddant yn eu trafod:

- Oes angen ymchwiliad i'r cyhuddiad?
- Pwy fydd yn gwneud yr ymchwiliad?
- Oes bygythiad i ddiogelwch plant? Os felly, bydd angen gofyn i ServocaDream ymchwilio (cwmni yw ServocaDream a gontractiwyd gan Lywodraeth y Cynulliad i ymchwilio i honiadau yn erbyn staff ysgol ynghylch diogelwch plant).
- A oes angen gwahardd yr athro adeg yr ymchwiliad?

Gellid hefyd penderfynu nad oes achos i'w ateb a bod modd gadael y cyfan yn nwylo'r ysgol.

Yn anffodus, yr athro yw'r olaf i gael gwybod beth sy'n digwydd yn ystod y broses. Mae'n hynod bwysig derbyn cefnogaeth yr undeb yn ystod proses o'r fath.

Cofiwch, peidiwch byth â mynd i gael eich holi gan ServocaDream heb yn gyntaf gysylltu ag un o swyddogion UCAC.

Bwrdd Golygyddol

Llywydd Cenedlaethol: Emrys Wynne
Is-Lywydd: Gwynn Griffith
Ysgrifennydd Cyffredinol: Elaine Edwards
Cyd-lynydd *Yr Athro*: Rebecca Williams

Nid yw cynnwys *Yr Athro* o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.

Os hoffech gyfrannu i'r cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: Rebecca Williams, Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU Ffôn: 01970 639950
Ffacs: 01970 626765 E-bost: rebecca@athrawon.com www.athrawon.com
Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am *Yr Athro*.

Mesur Dysgu a Sgiliau – Ilwyddiant i UCAC

Ar 17 Mawrth, pasiwyd y Mesur Dysgu a Sgiliau gan y Cynulliad Cenedlaethol. Dyma Fesur fydd yn ehangu opsiynau disgyblion 14-19 mlwydd oed drwy ffurfio 'Cwricwla Lleol'.

Bu gennym bryderon am y Mesur ers y cychwyn, gan gynnwys y ffaith nad oedd unrhyw sôn o gwbl yn y drafft cyntaf am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Rydym yn hynod o falch bod Llywodraeth y Cynulliad wedi ymateb i bwysau gan UCAC dros rai misoedd, ac wedi gwneud gwelliannau ynghylch darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r Mesur ar ei ffurf derfynol yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol (addysg 14-16) a Gweinidogion Cymru (addysg 16-18) i: "hyrwyddo mynediad at, ac argaeledd, cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg."

Yn ystod y drafodaeth ar lawr y Cynulliad, cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau (John Griffiths AC) at bwysigrwydd "dilyniant a chynnydd ieithyddol". Dywedodd y byddai canllawiau statudol a fydd yn cyd-fynd â'r Mesur yn mynd i'r afael â'r "her [arbennig] a wynebir yn nhermau dilyniant ieithyddol Cymraeg."

Ni fyddai'r newidiadau hyn wedi digwydd oni bai am bwyso sylweddol gan UCAC, a chefnogaeth i'n hymdrechion gan sefydliadau eraill. Diolchwn yn fawr iawn i bob aelod a fu mewn cysylltiad â'r Gweinidogion ac Aelodau Cynulliad i bwyso am newid.

Codiad Cyflog mis Medi – y diweddaraf!

Ar 12 Mawrth 2009, aeth dirprwyaeth o swyddogion ac aelodau UCAC i gyflwyno tystiolaeth lafar gerbron y *School Teachers' Review Body (STRB)* yn Llundain. Y prif bwnc dan sylw y tro hwn oedd y codiad tâl arfaethedig o 2.3% ar gyfer mis Medi 2009. Ydy 2.3% yn ddigon?

Mae UCAC wedi dadlau o blaid codiad uwch am nifer o resymau, gan gynnwys:

- mae'r codiadau tâl ers 2002 wedi bod yn is na lefel chwyddiant, ac mae tâl athrawon eisoes wedi dechrau syrthio tu ôl i broffesiynau eraill
- pan gafwyd y codiad tâl o 2.45% ym mis Medi 2008, roedd lefel chwyddiant yn 5%, ac roedd costau byw yn ystod y flwyddyn wedi bod llawer yn uwch na'r disgwyl
- mae llawer o athrawon wedi gweld gostyngiad yn eu tâl ers Ionawr 2009, gan fod y cyfnod diogelu lwfansau cyfrifoldeb wedi dod i ben
- mae nifer o athrawon yn parhau i gyflawni'r un cyfrifoldebau heb gydnabyddiaeth ariannol, ac mae datblygiadau o'r math wedi effeithio ar forâl ac yn debygol o effeithio ar ddenu a chadw athrawon

Er bod yr hinsawdd economaidd yn ei gwneud yn anodd gofyn am fwy o arian, cred UCAC ei fod yn bwysig i ni gyflwyno'r dadleuon gerbron, a bod ystyriaeth yn cael ei roi i'r materion pwysig hyn.

Mae'r STRB wedi argymell fod y codiad o 2.3% yn cael ei weithredu. Maent yn aros am dystiolaeth, yn dilyn yr arolwg diweddar o gyflogau athrawon, cyn iddynt benderfynu os byddant yn argymell codiad ychwanegol.

Dirprwyaeth Mawrth 2009: Emrys Wynne (Llywydd Cenedlaethol); Elaine Edwards (Ysgrifennydd Cyffredinol); Ann Lewis (Cynrychiolydd yr Adran Gyflogau, Pensiynau ac Amodau Gwaith); Dilwyn Roberts-Young (Is Ysgrifennydd Cyffredinol); Eryl Owain (Swyddog Maes y Gogledd).

Mewn Undeb mae Nerth

Mewn cyfnod o gynni ariannol, mae'n naturiol i geisio lleihau gwariant. Ond dyma 6 rheswm dros barhau yn aelod o UCAC:

1. Mae swyddogion UCAC yn gallu cynnig cyngor arbenigol, ac yn gallu gweithredu ar eich rhan (gan gynnwys defnyddio'n rhwydwaith cenedlaethol o gyfreithwyr) – *yn rhad ac am ddim* - os bydd unrhyw broblem yn codi yn y gweithle
2. Mae UCAC yn cynnig gwasanaeth gwybodaeth a chyngor i aelodau – wyneb yn wyneb, ar y ffôn, ar e-bost, ar y we a thrwy daflenni
3. Mae gan UCAC Gynllun Digolledu a Chymhorthfa Ariannol sy'n estyn cymorth ariannol i aelodau mewn cyfnodau anodd
4. Mae UCAC yn darparu'r wybodaeth berthnasol ddiweddaraf i'w haelodau drwy:
   - Cylchgrawn *Yr Athro* 6 gwaith y flwyddyn
   - Cylchlythyron arbenigol
   - Blwyddlyfr UCAC
5. Mae UCAC yn ymgyrchu'n ddi-baid dros dâl ac amodau gwaith teg i athrawon a darlithwyr
6. Mae swyddogion UCAC yn cwrdd yn gyson â Gweinidogion, Swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, ac Aelodau Cynulliad er mwyn dylanwadu ar bolisi addysg, a chynrychioli buddiannau athrawon a darlithwyr Cymru

A hyn i gyd – yn wahanol i unrhyw undeb athrawon arall – yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae UCAC yn diogelu athrawon a darlithwyr Cymru. Mae aelodaeth yn fuddsoddiad amhrisiadwy.

Peidiwch â chael eich ecsploetio! Byddwch wyliadwrus gydag asiantaethau

Mae UCAC yn ymwybodol fod llawer o athrawon yn gorfod troi at asiantaethau athrawon er mwyn cael swyddi cyflenwi neu wrth chwilio am swydd barhaol.

Os ydych yn ystyried arwyddo cytundeb ag asiantaeth, byddwch yn ofalus dros ben, a chofiwch ddarllen geiriad y cytundeb yn drylwyr iawn.

- Os oes sôn am godi ffi, gofynnwch *faint o ffi*?
- Os oes sôn am eich rhwymo i gyfnod estynedig ar eu telerau nhw petai ysgol yn cynnig swydd barhaol i chi, gofynnwch *pa mor hir yw'r cyfnod hwnnw*?

Ni ddylai cytundeb o'r fath gynnwys cyfeiriadau amhenodol na phenagored. Mynnwch dderbyn cytundeb clir a byddwch yn wyliadwrus cyn arwyddo unrhyw beth.

Mae UCAC wedi cymryd safbwynt cryf yn erbyn asiantaethau athrawon gan eu bod, yn ein barn ni, yn ecsploetio athrawon.

Peidiwch â gadael i unrhyw un eich ecsploetio chi! Cysylltwch ag UCAC i gael cyngor.

Athrawon, gan gynnwys athrawon cyflenwi – ewch am y Trothwy!

Os ydych yn athro neu'n athro cyflenwi sydd wedi cyrraedd pwynt 6 ar y brif raddfa mae gennych yr hawl i wneud cais i groesi'r Trothwy. Er mwyn gwneud cais yn Rownd 9 (2008-2009) mae'n rhaid eich bod:

- yn cael eich cyflogi o dan delerau'r *School Teachers' Pay and Conditions Document 2008*
- ar bwynt 6 y brif raddfa gyflogaeth ar gyfer athrawon cymwysedig
- yn meddu ar statws athro cymwysedig
- yn cyflwyno cais cyn Awst 31 2009

Bydd angen cyflwyno tystiolaeth gyda'r cais.

Ar hyn o bryd, nid oes modd i athrawon sydd yn gweithio trwy asiantaeth wneud cais.

Mae manylion pellach ar gael yn nhaflen wybodaeth UCAC 'Y Trothwy Perfformiad Rownd 9'

I gael ffurflen gais a manylion pellach ewch i:
www.teachernet.gov.uk/management/payandperformance/threshold

Addoli ar y cyd

Dyma'r sefyllfa ar hyn o bryd ar gyfer gwasanaethau torfol dyddiol:

- Mae gan Bennaeth ysgol gyfrifoldeb i drefnu gweithred addoliad ar y cyd yn ddyddiol ar gyfer holl ddisgyblion yr ysgol.
- Bydd natur y gwasanaeth yn dibynnu ar gefndir teuluol, oed a gallu'r disgyblion. Dylai'r addoliad fod o natur Gristnogol yn bennaf ('*broadly Christian character*') er y gall gynnwys credoau a materion eraill.
- Gellir cynnal y gwasanaeth torfol ar unrhyw adeg yn ystod y diwrnod ysgol; nid oes angen i'r ysgol gyfan fod yn bresennol yn yr un lle ar yr un pryd, cyhyd ag y bod pob disgybl yn mynychu addoliad.
- Gellir trefnu gwasanaeth torfol mewn grwpiau dosbarth neu flwyddyn, neu beth bynnag sydd yn addas ar gyfer yr ysgol.
- Nid oes hawl eu trefnu mewn grwpiau ffydd heb ganiatâd oddi wrth y CYSAGau (Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol) lleol. Mae'n wahanol ar gyfer Ysgolion Ffydd.
- Mae deddfwriaeth newydd yn caniatáu i ddisgyblion ôl-16 mewn ysgolion gael y dewis p'un ai i fynychu'r gwasanaeth torfol neu beidio.

Dylai pob Pennaeth ysgol uwchradd fod wedi derbyn llythyr oddi wrth Gymdeithas CYSAGau Cymru yn rhoi canllawiau ynglŷn â'r ddeddfwriaeth newydd. Mae'r canllawiau'n nodi:

- Bod y gofyniad statudol ar ysgolion i ddarparu'r weithred feunyddiol o addoli ar y cyd i bob disgybl *yn parhau*;
- Bod y ddarpariaeth i alluogi rhieni i dynnu eu plant o weithredoedd addoli ar y cyd wedi bod mewn lle ers 1944;
- Mai'r agwedd newydd yw y gall disgyblion ôl-16 ofyn am gael eu heithrio o weithredoedd addoli ar y cyd *eu hunain*.

Mae Cymdeithas CYSAGau Cymru'n pwysleisio'r angen am drafodaeth ar y mater, fel bod disgyblion ôl-16 yn cael cyfle i ystyried oblygiadau peidio mynychu gwasanaeth torfol yn rheolaidd.

Cefnogaeth UCAC

O bryd i'w gilydd mae'n bosib y bydd problem yn codi rhwng athro ac aelod o'r Tîm Rheoli, neu rhwng dau athro o fewn ysgol – a'r ddau ohonynt yn perthyn i UCAC.

Mewn achos felly, peidiwch â phetruso. Cysylltwch â ni a bydd gwahanol swyddogion yn rhoi cefnogaeth i'r naill aelod a'r llall heb drafod y mater â'i gilydd. Cewch gefnogaeth cryf a chadarn, fel mewn unrhyw achos arall.

Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg i Athrawon

"Baswn i'n annog unrhyw un sydd eisiau gwella ei sgiliau Cymraeg, a'u defnyddio mewn awyrgylch dysgu, i fanteisio ar y cyfle gwych yma... Dwi nawr wrthi'n helpu athrawon gyda'u Cymraeg ac yn siarad gyda gweithwyr proffesiynol ym maes addysg yn ddyddiol. "
Nerys Lewis, Athrawes Meithrin, Tredegar Newydd

Diben y cynllun yw rhoi cyfle i athrawon, darlithwyr, neu hyfforddwyr sy'n dymuno gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog dderbyn hyfforddiant iaith. Mae'r cynllun hefyd wedi'i anelu at y sawl sy'n gallu siarad y Gymraeg yn rhugl, naill ai fel siaradwyr iaith gyntaf neu ddysgwyr rhugl, ond bod ganddynt ddiffyg hyder neu derminoleg arbenigol yn y Gymraeg er mwyn gallu defnyddio'u sgiliau mewn cyd-destun proffesiynol.

Lleoliad yr hyfforddiant: Prifysgol Caerdydd neu Brifysgol Bangor. Yn ogystal, mae opsiwn dysgu o bell gydag elfen breswyl.

Costau: Mae'r cwrs **am ddim**.
Telir holl gostau cyflenwi, teithio a llety gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Am fanylion pellach cysylltwch gyda'r tîm ar:
01443 663770 neu cynllunsabothol@cymru.gsi.gov.uk



Mae Cyngor Llyfrau Cymru newydd gyhoeddi taflen liwgar yn cynnwys detholiad o lyfrau ac adnoddau addas ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Os hoffech gopïau cysylltwch â Lila Piette, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, SY23 2JB.
ffôn: 01970 624151
e-bost: lila.piette@cllc.org.uk

Eco-Sgolion

Mae straeon am yr amgylchedd yn ymddangos yn gyson yn y newyddion y dyddiau yma, gyda'r pwnc ar flaen tafod pobl ar y stryd ac yn codi mewn pwysigrwydd yn y byd gwleidyddol.

Mae Eco-Sgolion yn rhaglen sy'n ceisio gwella ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol o fewn ysgolion, ac yn annog disgyblion i arwain y ffordd. Sefydlir Eco-Bwyllgor sy'n cynnal adolygiad o'r ysgol ac yn edrych ar faterion yn cynnwys Ynni, Byw'n Iach a Dinasyddiaeth Fyd-Eang. Mae yna wobrau ar hyd y daith, a'r un mwyaf adnabyddus ohonynt yw'r Faner Werdd. I gyrraedd y safon i dderbyn y tlws yma, bydd y plant wedi codi ymwybyddiaeth o fewn yr ysgol, ac yn y gymuned leol.

Menter ryngwladol yw'r rhaglen, sy'n darparu fframwaith delfrydol i gefnogi datblygiad cynaliadwy o fewn ysgolion. Mae'n cael ei rhedeg yng Nghymru gan Cadwch Gymru'n Daclus gyda chwe swyddog wedi'u lleoli ar draws Cymru yn cefnogi ysgolion a'u pwyllgorau.

Er mai prif bwyslais y rhaglen yw mai'r plant sy'n ei yrru, mae nifer o'r 400 o ysgolion sydd wedi ennill y Faner Werdd, wedi darganfod ei fod yn ffordd dda o weithredu elfennau o'r *Cyd-ddealltwriaeth ar Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang.*

I ddarganfod mwy, ymwelwch â'r wefan www.eco-sgolioncymru.org i ddod o hyd i'r Swyddog yn eich ardal chi.

Rhys Bebb
Swyddog Eco-Sgolion, Gwent / rhys.bebb@keepwalestidy.org